DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Practis Deintyddol West Street; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr Arolygiad: 29 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Mehefin 2017

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall am AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Bydd copïau o bob adroddiad, ar ôl eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu trwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tydfil**
**CF48 1UZ**


Neu trwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-9577-7


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................ 2

2. Cyd-destun ........................................ 3

3. Crynodeb ........................................ 4

4. Canfyddiadau ........................................ 5

Ansawdd profiad y claf ........................................ 5

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................ 7

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu harolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hawdd ei gael a pherthnasol ynglŷn â diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol West Street yn 23 Stryd Y Wesh, Abergwaun, SA65 9A6 ar 29 Mawrth 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol West Street yn cydymffurfio â'r safonau gofal sydd i'w gweld yn Safonau ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhybudd o arolygiadau deintyddol o flaen llaw ac rydym yn ystyried ac arolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel, dibynadwy, o ansawdd uchel ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheoli ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym yn ystyried hefyd sut mae gwasanaethau'n arolygu a monitro'u perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'n methodoleg yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol West Street yn darparu gwasanaethau i gleifion ardaloedd Abergwaun a Sir Benfro. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Practis cymysg yw Practis Deintyddol West Street sy'n darparu gwasanaethau deintyddol yn breifat ac ar ran y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, dwy nyrs ddeintyddol a dau o dderbynyddion. Mae'r deintydd yn gweithredu fel rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau ar ran y GIG ac yn breifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfyddom dystiolaeth fod Practis Deintyddol West Street yn cyrraedd y safonau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Dyma'r pethau a welsom y practis yn eu gwneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd
- Roedd y tîm o staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac ynddynt ddigon o gyfarpar
- Glanhawyd a sterileiddiwyd yr offer deintyddol mewn ffordd briodol
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau defnydd diogel o belydr-X.

Dyma'r pethau yr ydym yn awgrymu y gallai'r practis eu gwneud yn well:

- Mae angen gorffen y gwaith ar ddrysau'r cypyrddau yn yr ystafell driniaeth, hefyd selio'r llawr
- Mae angen darparu tystiolaeth i AGIC bod gan y practis dystysgrif drydanol newydd unwaith bob pum mlynedd
- Mae angen gorffen y gwaith ar yr ystafell ddadheintio er mwyn atal perygl o ganlyniad i halogion
- Rhaid gweithredu polisi ymweld â'r cartref
- Mae angen dal ati i ddarparu hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu rhag ymbelydredd
- Rhai agweddau o gadw cofnodion cleifion
- Dylai'r practis wneud trefniadau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol a chynnal archwiliadau'n rheolaidd
- Mae angen diweddaru polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol ar gyfer y practis ac mae angen eu hadolygu'n rheolaidd.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Canfyddom dystiolaeth fod y practis yn ymroddi i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer eu cleifion. Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion trwy ein holiaduron yn gadarnhaol.**

Cyn yr arolwg, gofynnom i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 17 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion iddynt gael croeso cynnes a'u bod yn fodlon gyda'r wybodaeth a roddwyd iddynt ynglŷn â'u triniaeth a hefyd gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd ganddynt yn y practis. Dyma rai o'u sylwadau:

> *"Yn hapus iawn gyda chanlyniadau'r gwaith deintyddol diweddar"*
>
> *"Roedd y staff i gyd yn barod iawn i helpu, yn gyfeillgar a phroffesiynol"*
>
> *"Triniaeth ddeintyddol dda a chymwys"*
>
> *"Rwyf wedi dioddef llawer iawn gyda gofidiau ynglŷn â mynd at ddeintyddion, fodd bynnag mae'r practis dwi'n ei fynychu nawr wedi achosi newid sylweddol yn fy ffordd o feddwl, ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Maent wedi bod yn wych ym mhob agwedd o ddeintyddiaeth"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos fod cleifion yn derbyn gofal gyda pharch ac urddas. Roedd lle preifat ar gael er mwyn i staff gael siarad â chleifion y tu allan i glyw cleifion eraill os oedd gofyn am hynny, er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod gwybodaeth ynglŷn â phrisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn yr ystafell aros ac o ganlyniad i hynny, mae'r cleifion yn ymwybodol o'r costau. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd triniaeth (lle bu cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein hymweliad), yn cael eu cadw ar gau er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y darperir gofal mewn modd amserol. Dywedodd pob un a ymatebodd i'r holiadur na wnaethant brofi unrhyw oedi cyn cael triniaeth. Dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn gwybod sut i gael triniaeth frys y tu allan i oriau gwaith. Gwelsom fod rhif cyswllt mewn argyfwng, manylion y deintydd gweithredol ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Gwnaethom gynghori y dylid dileu enw'r deintydd blaenorol oddi ar yr arwydd er mwyn sicrhau ei gywirdeb.

Cadw'n iach

Mae gwybodaeth sy'n hybu iechyd yn rhoi cymorth i gleifion i dderbyn bod ganddynt gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym iddynt dderbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth. Roedd gan y practis ystod o wybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros.

Gofal unigol

Canfyddom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer trin pryderon (cwynion) yn ymwneud â thriniaeth GIG a thriniaeth breifat. Roedd manylion y weithdrefn gofrestru cwyn ar gael ar wal yr ystafell aros. Dywedodd 9 allan o'r 17 a atebodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gofrestru cwyn. Cadarnhaodd rheolwr y practis bod copïau o weithdrefn gofrestru cwyn y practis ar gael i gleifion, wedi'i leoli ar y ddesg yn y dderbynfa. Golyga hyn bod modd i gleifion ddod o hyd i'r wybodaeth yn hawdd, pe bai arnynt ei hangen.

Roedd y weithdrefn gofrestru cwyn yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynglŷn â thriniaeth o fewn y GIG (a adnabyddir o dan y teitl 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[1].

Gwelsom fod y practis yn cadw cofnod o sylwadau canmoliaethus, pryderon a chwynion. Roedd dogfennau allweddol, megis y weithdrefn gofrestru cwyn, ar gael yn y Gymraeg.

Mae gan y practis ffordd sefydledig o ofyn am adborth gan gleifion. Gwelsom dystiolaeth fod holiaduron bodlonrwydd cleifion yn cael eu dosbarthu er mwyn

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.

cael adborth ac awgrymiadau gan y cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer arolygu'r adborth a geir gan y cleifion. Dylid crynhoi unrhyw ganlyniadau, weithredoedd neu ddysgu o ganlyniad i adborth cleifion a bwydo'r wybodaeth honno yn ôl i'r cleifion.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Yn gyffredinol, canfyddom dystiolaeth yn dangos y darperir gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn y cyfleusterau clinigol ddigon o offer ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Fodd bynnag, roedd yna beth gwaith ar ôl i'w wneud i ddrysau'r cypyrddau yn yr ystafell driniaeth ac roedd angen selio'r llawr.**

**Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau oedd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy yn ymwneud â gofal iechyd. Canfyddom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Fodd bynnag, roedd yna beth gwaith ar ôl i'w wneud yn yr ystafell ddadheintio. Hefyd mae angen tystysgrif drydanol bob pum mlynedd.**

**Roedd offer dadebru a chyffuriau at ddefnydd mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roedd yna systemau ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi polisi ymweld â'r cartref ar waith, gan nodi pa drefniadau sydd yna i ddarparu cyffuriau ac offer argyfwng yn ôl y gofyn yn ystod yr ymweliadau hynny.**

**Roedd trefniadau ar waith i sicrhau defnydd diogel o offer pelydr-X. Fodd bynnag, roedd angen i un nyrs ddeintyddol oedd newydd ddychwelyd i weithio gwblhau'r hyfforddiant diweddaru angenrheidiol, yn unol â gofynion Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[3], cyn cael bod yn rhan o'r broses o gymryd radiograffau. Mae angen i gofnodion cleifion gael eu cadw yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol. Mae'r practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Dylai'r practis wneud trefniadau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol, gan gynnwys adolygu gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol a chynnal archwiliadau rheolaidd.**

---

[2] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[3] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## <u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau tuag at ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Roedd yn amlwg wrth edrych bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yr ystafell driniaeth yn lân a threfnus. Fodd bynnag, roedd angen mwy o waith i wella drysau'r cypyrddau yn yr ystafell driniaeth a selio'r llawr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Angen cwblhau'r gwaith ar ddrysau'r cypyrddau yn yr ystafell driniaeth a selio'r llawr.***

Gwelsom fod Prawf Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'i gynnal i helpu i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach o fewn y practis. Fodd bynnag, nid oedd yna dystiolaeth ar ffurf tystysgrif drydanol ar gyfer yr adeilad - dylid cael tystysgrif newydd bob pum mlynedd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid darparu tystiolaeth ar ffurf tystysgrif drydanol bob pum mlynedd i AGIC.***

Gwnaethom edrych ar asesiadau risg Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gwelsom fod y practis yn cadw taflenni data diogelwch ar gyfer pob sylwedd yn ogystal â'r asesiadau risg priodol. Gwelsom hefyd fod y storfa COSHH yn ddiogel.

Roedd yna ddogfennau contract ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynhwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd offer diffodd tân ar gael ac roedd gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud arnynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd cytundeb cynnal a chadw offer tân mewn grym ac arwyddion tân ac asesiad risg i'w gweld. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

## ***<u>Rheoli Heintiau</u>***

Roeddem yn fodlon gyda threfniadau'r practis deintyddol i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n ymwneud â gofal iechyd. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod yna fesurau ar waith i reoli ac atal heintiau. Dyma rai enghreifftiau o'r mesurau sydd ar waith:

- Ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol

- Argaeledd a defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE), er enghraifft menig untro, ffedogau ac offer diogelu'r llygaid
- Sinc neilltuedig ar gyfer golchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio cyfarpar mewn cyflwr da
- Roedd yna lyfr i gofrestru pan fydd yr offer sterileiddio'n cael ei archwilio, gan gynnwys profion dyddiol, ac roedd hwn wedi'i gwblhau
- Storiwyd a chludwyd offer mewn modd priodol ac roedd dyddiad ar eu deunydd pacio yn dangos erbyn pryd yr oedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom fod y staff i gyd yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos eu bod wedi ystyried polisïau allweddol. Gwelsom fod gwybodaeth gyfredol ynglŷn â statws brechu ac imiwnedd staff ar gael. Roedd y practis wedi ymgymryd â rhan gyntaf archwiliad rheoli heintiau, fel yr argymhellwyd yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[4] (WHTM 01-05) ac roedd staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddadheintio bob pum mlynedd. Roedd angen peth gwaith adferol yn yr ystafell ddadheintio gan fod yna baent rhydd ar y wal yn agos at y nenfwd a gallai hwn fod yn halogydd pe bai'n cael aros yno.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Angen cwblhau gwaith adferol yn yr ystafell ddadheintio er mwyn gwaredu'r paent rhydd ar y nenfwd er mwyn atal perygl o ganlyniad i halogydd.***

*Cyffuriau ac offer dadebru mewn argyfwng*

Roedd offer dadebru a chyffuriau at ddefnydd mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio yn achos argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewyg). Roedd gan y practis bolisi dadebru. Fodd bynnag, polisi cyffredinol ydyw a gwnaethom gynghori bod angen adolygu'r polisi gan gynnwys manylion rôl a chyfrifoldebau'r staff. Gwelsom gofnodion oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar beth

---

[4] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

i'w wneud mewn argyfwng meddygol ac ar sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Mae'r practis wedi penodi aelodau o'r tîm i fod yn gyfrifol am roi cymorth cyntaf ac roedd y rhain wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Roedd bocs Cymorth Cyntaf ar gael hefyd. Roedd yna lyfr damweiniau addas ac roedd taflenni damweiniau wedi'u cwblhau yn cael eu ffeilio'n ddiogel er mwyn sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu.

Roedd y cyffuriau at ddefnydd mewn argyfwng yn cael eu cadw'n drefnus, gyda siartiau llif ar gyfer argyfyngau penodol i gyd-fynd â nhw. Cedwir cofnod o archwiliadau rheolaidd o'r cyffuriau at ddefnydd mewn argyfwng. Fodd bynnag, mae angen creu polisi ymweld â'r cartref, gan nodi ynddo'r trefniadau ar gyfer darparu cyffuriau ac offer argyfwng yn ystod yr ymweliadau hynny.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid rhoi polisi ymweld â'r cartref ar waith, gan nodi ynddo'r trefniadau ar gyfer darparu cyffuriau ac offer argyfwng yn ystod yr ymweliadau hynny.***

*Diogelu*

Mae'r practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allent fod mewn perygl. Mae yna bolisïau diogelu addas mewn grym ac fe ddarperir hyfforddiant diogelu ar gyfer staff perthnasol. Mae yna drefniadau ar waith i staff gael mynegi unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus i wneud hynny. Dywedwyd wrthym y cymerir camau gwirio cyn cyflogi unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o staff.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi'i gynllunio a'i drefnu i sicrhau defnydd diogel o offer pelydr-X. Gwelsom ddogfennau yn dangos y gwneir gwaith cynnal a chadw ar y peiriannau pelydr-X yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod staff oedd yn ymwneud â'r broses o gymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, roedd yna un nyrs ddeintyddol oedd wedi dychwelyd i weithio yn ddiweddar ac roedd angen iddi hi gael hyfforddiant diweddaru ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Cadarnhaodd y deintydd na fyddai'r nyrs honno yn ymwneud â'r broses o gymryd radiograffau hyd nes bod ei hyfforddiant yn gyfredol unwaith eto. Cedwir cofnod diogelu rhag ymbelydredd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid darparu hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu rhag ymbelydredd ar gyfer pob aelod perthnasol o staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a siarad â'r unig ymarferwr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Yn gyffredinol, canfyddom fod y gwaith o gadw cofnodion a'r gofal am gleifion o ansawdd dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol lle mae angen gwelliannau:

- Mae angen cofnodi gyda chysondeb pan fydd y deintydd yn rhoi cyngor i'r claf ynglŷn â chwilio am ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmygu ac iechyd y geg
- Mae angen cofnodi'n ysgrifenedig a chyda cysondeb unrhyw opsiynau cynllun triniaeth a drafodir gyda'r claf
- Lle cedwir cofnodion papur a chofnodion electronig, rhaid gwneud hynny gyda chysondeb
- Mae angen cynyddu amlder cymryd radiograffau er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddarganfod pydredd a chynllunio triniaeth.[5]
- Rhaid cofnodi â chysondeb gyfiawnhad am gymryd radiograffau a chynnal archwiliadau

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cadw cofnodion cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol ar gadw cofnodion.***

**<u>Gofal effeithiol</u>**

Mae'r cleifion yn elwa o bractis sy'n ymroi o hyd i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd yna dystiolaeth i ddangos bod y deintydd yn cynnal archwiliadau clinigol sy'n cynnwys adolygiad gan gymheiriaid. Gwnaethom gynghori'r deintydd fod dysgu o

---

[5] Niwed cynyddol i'r dannedd a achosir gan facteria yw pydredd deintyddol ac mae'n un o'r clefydau mwyaf cyffredin, yn effeithio ar 95% o'r boblogaeth

ganlyniad i adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau yn cyfrannu tuag at ansawdd y gofal a ddarperir. Byddai gwneud hynny hefyd yn cynnig cyfle i gynnal proses werthuso flynyddol gan gymheiriaid. Cawsom drafodaeth ynglŷn â'r ystod o destunau archwiliad a ddarperir gan ddull Deoniaeth Cymru /Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth [6].

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis wneud trefniadau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol a chynnal archwiliadau rheolaidd.***

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Mae gan Bractis Deintyddol West Street dîm sefydledig ac ychydig iawn o fynd a dod o ran staff. Y deintydd sydd yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff hynny y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymrwymiad at ddarparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer y cleifion.**

Gwelsom dîm o staff yn gweithio ac roedd ei aelodau'n ymddangos yn hapus a galluog wrth eu gwaith. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant addas ar gyfer eu gwaith a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom fod yna systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o staff yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn cael gwybod am bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd a bod cofnod ohonynt ar gael. Roedd y practis hefyd yn ymgymryd â'r gwaith o arfarnu staff yn flynyddol.

Gwnaethom gadarnhau fod pob aelod perthnasol o staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd sydd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Roedd y dull o gadw cofnodion cleifion yn addas er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Dywedodd y deintydd bod y practis yn y broses o drefnu gwasanaeth TG newydd i storio data wrth gefn. Yn y cyfamser, mae data yn cael ei storio wrth gefn mewn ffordd addas.

Roedd angen adolygu polisïau'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn benodol ar gyfer y practis, gan fod rhai yn cyfeirio at ganllawiau Lloegr yn hytrach na rhai

[6] https://dental.walesdeanery.org/sites/default/files/Guide%20for%20Practices%20MMD%202016.pdf

Cymru. Dylid adolygu holl bolisïau’r practis yn rheolaidd. Roedd polisi sicrhau ansawdd mewn grym.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu polisïau’r practis i wneud yn siŵr eu bod yn benodol ar gyfer y practis ac mae angen eu hadolygu’n rheolaidd***

# 1. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol West Street yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlen.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn synhwyrol ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 2. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) yn ganolog yn ffordd AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Golygir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd fel eu bod yn disgrifio sut mae gwasanaeth yn darparu gofal sydd o ansawdd uchel, yn ddiogel, yn ddibynadwy ac sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n rhan allweddol o’r dyfarniadau a gyrhaeddwn ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis ac sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[7] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011[8]. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau

[7] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol West Street

## Dyddiad yr Arolygiad: 29 Mawrth 2017

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Amherthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| 8 | Gwaith ar ôl i'w wneud ar ddrysau'r cypyrddau yn yr ystafell driniaeth a hefyd i selio'r llawr | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (3) (a) a (b)<br><br>*Canllawiau'r* | Mae'r gwaith o selio'r llawr wedi'i gwblhau.<br>Y gwaith sydd ar ôl i'w wneud ar ddrysau'r cypyrddau i'w gwblhau erbyn 30 Mehefin 2017 | Mr A Chiriac | Gwaith selio'r llawr wedi'i gwblhau.<br><br>Ailosod drysau'r cypyrddau erbyn 30 Mehefin 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Cyngor Deintyddol Cyffredinol: safon 1.5* | | | |
| 8 | Angen darparu tystiolaeth i AGIC ar ffurf tystysgrif drydanol sy'n cael ei hadnewyddu bob pum mlynedd | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) (d)<br><br>*Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989* | Cwblhawyd prawf gwifrau trydanol ar 29 Ebrill 2017. Anfonwyd copi o'r dystysgrif at AGIC. | Mr A Chiriac | Wedi'i gwblhau |
| 9 | Gwaith ar ôl i'w gwblhau yn yr ystafell ddadheintio i waredu paent rhydd o'r nenfwd er mwyn atal perygl o ganlyniad i halogion | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Gwaredwyd y paent rhydd.<br><br>Bwriedir ailaddurno'r ystafell ddadheintio i gyd ym mis Awst 2017. | Mr A Chiriac | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 14 (3) (a) a (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol: safon 1.5*<br>*WHTM 01-05* | | | |
| 10 | Mae angen rhoi polisi ymweld â'r cartref ar waith, gan nodi ynddo'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod meddyginiaeth ac offer argyfwng ar gael yn ystod y fath ymweliadau. | Safonau Iechyd a Gofal 2.6<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Trafodwyd y mater hwn gyda'r staff mewn cyfarfod tîm yn ddiweddar. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau newydd. Bydd y Polisi Ymweld â'r Cartref mewn grym erbyn 31 Mai 2017. | Mr A Chiriac | 31 Mai 2017 |
| 10 | Rhaid sicrhau bod hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ar gyfer unrhyw staff perthnasol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 | Bu'r aelod o staff oedd newydd ddychwelyd i weithio ar gwrs IRMER ar 18 Mai 2017. Cyn hynny, ni fu'n cynorthwyo pan oedd galw am belydr-X. | Mr A Chiriac | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1(b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | | | |
| 11 | Mae angen cadw cofnodion cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol ar gadw cofnodion. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5 a 4.5<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 1(b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safon 4* | Rwyf wedi gwneud gwelliannau i sicrhau bod cofnodion meddygol manylach yn cael eu cadw o hyn ymlaen.<br><br>Rwyf wedi cyflwyno fy nogfennau er mwyn cael ymuno â Chyfadran y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (y DU). Bydd hyn yn fy ngalluogi i gael gwybodaeth bellach er mwyn gwella fy nghofnodion yn barhaus. | Mr A Chiriac | Wedi'i gwblhau ac yn parhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai'r practis wneud trefniadau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol a chynnal archwiliadau rheolaidd. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2008<br>14 (1) (b)<br><br>Rheoliad 16A (1)<br>*Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth (MMD)* | Bydd y practis yn gwneud trefniadau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol trwy gydweithio â phractis deintyddol arall yn yr ardal er mwyn cynnal adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol, yn unol â chanllawiau'r Rhaglen Wella Ansawdd Practis sy'n dod o dan ambarél Deoniaeth Cymru. | Mr. A Chiriac | 31 Hydref 17 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Mae angen adolygu polisïau'r practis i wneud yn siŵr eu bod yn benodol ar gyfer y practis ac mae angen eu hadolygu'n rheolaidd | Safonau Iechyd a Gofal 2.7<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) | Y polisïau i gael eu hadolygu, eu diweddaru a'u golygu i fod yn benodol ar gyfer y practis hwn. | Mr A Chiriac | 30 Medi 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2008<br>14 (1) (d)<br><br>*Canllawiau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol: safon 6* | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:** **Perchennog / Rheolwr y Practis**

**Enw:** **Mr Adrian Chiriac** ………………………………

**Dyddiad:** **04/05/2017** ……………………………………………..